# Ordinhad 2 - Swyddogion y Brifysgol - Rolau a Phenodi

## 2. Swyddogion y Brifysgol - Rolau a Phenodi

### 2.1 Y Canghellor

(i) Bydd y Canghellor yn swyddog lleyg a benodir gan y Cyngor a bydd yn dal ei swydd am bedair blynedd neu tan iddo/iddi farw neu ymddiswyddo cyn hynny.

(ii) Bydd y Canghellor yn llywyddu yng nghyfarfodydd y Llys.

(iii) Bydd y Canghellor yn dyfarnu Graddau ac yn cyflwyno gwobrau ac anrhydeddau eraill y Brifysgol. Yn absenoldeb y Canghellor, a phan fydd y swydd yn wag, bydd yr Is-ganghellor, neu un o'r Is-gangellorion, gan ymgynghori â'r Is-ganghellor, yn arfer y pŵer hwn.

### 2.2. Dirprwy Gangellorion

(i) Bydd y Dirprwy Gangellorion yn swyddogion lleyg a benodir gan y Cyngor a byddant yn dal eu swyddi am bedair blynedd neu nes iddynt farw neu ymddiswyddo cyn hynny.

(ii) Yn absenoldeb y Canghellor, neu yn ystod unrhyw gyfnod pan fydd y swydd yn wag, bydd un o'r Dirprwy Gangellorion hyn yn llywyddu yng nghyfarfodydd y Llys.

(iii) Bydd y Cyngor yn dynodi un o'r Dirprwy Gangellorion i gadeirio cyfarfodydd y Cyngor ac i arwain y Cyngor wrth gyflawni ei gyfrifoldebau'n llawn ac yn unol â Siarter, Statudau, Ordinhadau a Rheoliadau'r Brifysgol.

### 2.3 Y Trysorydd

(i) Bydd y Trysorydd yn swyddog lleyg a benodir gan y Cyngor a bydd yn dal y swydd am bedair blynedd neu nes iddo/iddi farw neu ymddiswyddo cyn hynny.

(ii) Bydd gan y Trysorydd gefndir ym maes cyllid neu gyfrifyddu.

(iii) Bydd y Trysorydd yn ffurfio trosolwg o sefyllfa ariannol y Brifysgol a'i strategaeth ariannol.

(iv) Y Trysorydd fydd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

## 2.4 Yr Is-ganghellor

### *2.4.1 Penodi'r Is-ganghellor*

(i) Penodir yr Is-ganghellor gan y Cyngor a bydd yn dal y swydd am y fath gyfnod ac o dan y fath amodau y gall y Cyngor eu pennu o bryd i'w gilydd.

(ii) Os daw swydd yr Is-ganghellor yn wag, neu os rhagwelir y daw'r swydd yn wag, bydd y Dirprwy Ganghellor sy'n cadeirio'r Cyngor (neu rywun sy'n gweithredu ar ei ran neu ar ei rhan) yn rhoi hysbysiad i'r perwyl y caiff Pwyllgor Dethol ar gyfer Swydd yr Is-ganghellor ei benodi gan y Cyngor.

(iii) Bydd y Cyngor yn gofyn i'r Pwyllgor Enwebiadau wneud argymhellion i'r Cyngor ynghylch cyfansoddiad ac aelodaeth y Pwyllgor Dethol.

(iv) Wrth lunio ei argymhellion ar gyfer y Cyngor, bydd y Pwyllgor Enwebiadau'n rhoi sylw dyledus i:
- amcanion, cenhadaeth ac anghenion strategol y Brifysgol;
- cyfrifoldebau'r Cyngor dan y Statudau a'r Ordinhadau;
- aelodaeth y Brifysgol; a
- materion cydraddoldeb ac amrywiaeth.

### *2.4.2 Rôl yr Is-ganghellor*

(i) Bydd yr Is-ganghellor, fel prif swyddog gweithredol y Brifysgol, yn atebol i'r Cyngor am weithrediad effeithlon ac effeithiol y Brifysgol.

(ii) Bydd yr Is-ganghellor yn cadeirio'r Senedd.

(iii) Bydd yr Is-ganghellor yn aelod ex officio o gyrff statudol y Brifysgol a holl bwyllgorau'r Brifysgol ac eithrio'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg.

(iv) Yn absenoldeb y Canghellor, neu yn ystod unrhyw gyfnod pan fydd y swydd yn wag, bydd gan yr Is-ganghellor yr awdurdod i ddyfarnu Graddau ac i gyflwyno gwobrau ac anrhydeddau eraill y Brifysgol.

(v) Yn amodol ar ddarpariaethau'r Rheoliadau, gall yr Is-ganghellor wrthod derbyn, atal neu dynnu unrhyw fyfyriwr yn ôl o'i (h)astudiaethau a gall wahardd unrhyw fyfyriwr o unrhyw ran o'r Brifysgol.

(vi) Yn amodol ar ddarpariaethau'r Statudau, yr Ordinhadau a'r Rheoliadau, gall yr Is-ganghellor atal unrhyw aelod o'r staff academaidd o’r gwaith ar gyflog llawn dros dro, gall ddiswyddo neu ddiarddel y cyfryw aelod staff.

(vii) Yr Is-ganghellor yw Swyddog Cyfrifyddu'r Brifysgol.

(viii) Gall yr Is-ganghellor ddirprwyo unrhyw un o'r swyddogaethau a restrir uchod yng nghymalau (ii), (iii), (iv), a (v) i’r Profost neu i Ddirprwy Is-ganghellor.

## 2.5 Y Profost

(i) Penodir y Profost gan y Cyngor, ar sail argymhelliad yr Is-ganghellor, o blith aelodau Athrawol y Senedd, neu fe'i penodir drwy benderfyniad Pwyllgor Penodiadau a alwyd ynghyd gan yr Is-ganghellor yn unol â gweithdrefnau perthnasol y Brifysgol ar gyfer penodiadau Athrawol a hysbysir y Cyngor am y penderfyniad hwn.

(ii) Bydd y Profost yn dal y swydd am bedair blynedd neu am y fath gyfnodau ac o dan y fath amodau y gall y Cyngor eu pennu o bryd i'w gilydd.

(iii) Bydd y Profost yn arfer y fath swyddogaethau a ddirprwyir gan yr Is-ganghellor a bydd ganddo/ganddi y fath gyfrifoldebau a bennir gan yr Is-ganghellor.

(iv) Bydd y Profost yn gweithredu ar ran yr Is-ganghellor yn ei absenoldeb neu pan fydd y swydd honno'n wag ac yn y fath faterion y gall yr Is-ganghellor eu hymddiried o bryd i'w gilydd yn y Profost.

(v) Pan fydd swydd y Profost yn wag, neu yn achos absenoldeb neu anallu dros dro'r Profost, gall yr Is-ganghellor argymell i Gadeirydd y Cyngor y dylid penodi Profost Dros Dro. Fel arfer, bydd penodiad y Profost Dros Dro yn para tra bydd y swydd yn wag neu am hyd absenoldeb neu anallu dros dro prif ddeiliad y swydd. Os yw'r penodiad yn debygol o bara am fwy na chwe mis, bydd yr Is-ganghellor yn ymgynghori â'r Senedd a'r Cyngor cyn gwneud argymhelliad i Gadeirydd y Cyngor. Yna gall Cadeirydd y Cyngor gymeradwyo penodi Profost Dros Dro a hysbysir y Senedd a'r Cyngor am y penodiad.

### 2.6 Dirprwy Is-gangellorion

(i) Penodir y Dirprwy Is-gangellorion gan y Cyngor, ar sail argymhelliad yr Is-ganghellor, o blith aelodau Athrawol y Senedd, neu fe'u penodir drwy benderfyniad Pwyllgor Penodiadau a alwyd ynghyd gan yr Is-ganghellor yn unol â gweithdrefnau perthnasol y Brifysgol ar gyfer penodiadau Athrawol a hysbysir y Cyngor am y penderfyniad hwn.

(ii) Bydd y Dirprwy Is-gangellorion yn dal y swydd am bedair blynedd neu am y fath gyfnodau ac o dan y fath amodau y gall y Cyngor eu pennu o bryd i'w gilydd.

(iii) Bydd y Dirprwy Is-gangellorion yn arfer y fath swyddogaethau a ddirprwyir gan yr Is-ganghellor a bydd ganddynt y fath gyfrifoldebau a bennir gan yr Is-ganghellor.

(iv) Yn absenoldeb yr Is-ganghellor a'r Profost, y Dirprwy Is-ganghellor sydd wedi bod yn y swydd hwyaf fydd yn gyfrifol am weithrediad effeithlon ac effeithiol y Brifysgol.

(v) Pan fydd swydd Dirprwy Is-ganghellor yn wag, neu yn ystod absenoldeb neu anallu dros dro, gall yr Is-ganghellor argymell i Gadeirydd y Cyngor y dylid penodi Dirprwy Is-ganghellor Dros Dro. Fel arfer bydd penodiad Dirprwy Is-ganghellor Dros Dro yn para tra bydd y swydd yn wag neu am hyd absenoldeb neu anallu dros dro prif ddeiliad y swydd. Os yw'r penodiad yn debygol o bara am fwy na chwe mis, bydd yr Is-ganghellor yn ymgynghori â'r Senedd a'r Cyngor cyn

gwneud argymhelliad i Gadeirydd y Cyngor. Yna gall Cadeirydd y Cyngor gymeradwyo penodiad Profost ac Is-ganghellor Cynorthwyol neu Ddirprwy Is-ganghellor gweithredol a hysbysir y Senedd a'r Cyngor am y penodiad.

## 2.7 Dirprwy Is-gangellorion Cynorthwyol

(i) Penodir y Dirprwy Is-gangellorion Cynorthwyol gan yr Is-ganghellor.

(ii) Bydd y Dirprwy Is-gangellorion Dirprwyol yn dal y swydd am ddwy flynedd ar y mwyaf, oni bai fod estyniad i gyfnod perthnasol y swydd yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor.

(iii) Bydd y Dirprwy Is-gangellorion Dirprwyol yn cefnogi Uwch-dîm Arweinyddiaeth y Brifysgol a bydd ganddynt y fath gyfrifoldebau a bennir gan yr Is-ganghellor.